Ysgol Pentreuchaf

110. Polisi Masnach Deg

Nod
Sicrhau bod yr ysgol yn ymrwymo i gefnogi Masnach Deg lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Canllawiau
1. Ceisio defnyddio tê, coffi a siwgr Masnach Deg yn yr ysgol.
2. Ceisio defnyddio cynhwysion Masnach Deg mewn gweithgareddau coginio.
3. Os ydynt ar gael, prynu adnoddau chwarae Masnach Deg pan yn adnewyddu offer.
4. Sicrhau bod Masnach Deg yn cael sylw dyledus mewn gweithgareddau, ac fel rhan o Gwricwlwm yr ysgol ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.
5. Hyrwyddo Masnach Deg o fewn cymuned yr ysgol.
6. Manteisio ar weithgareddau cymunedol, lleol a chenedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd i ni gymryd rhan ynddynt e.e drwy ein cyswllt gyda 'Blaenau Werdd'.
7. Rhoi sylw penodol i'r maes yn ystod Pythefnod Masnach Deg.
8. Gwahodd a chroesawu ymwelwyr i rannu gwybodaeth am Fasnach Deg gyda ni.
9. Manteisio ar unrhyw hyfforddiant Masnach Deg i'r Staff.
10. Trefnu gweithgareddau yn ystod Pythefnos Masnach Deg.

Casgliad
Er ein bod yn byw mewn cymdeithas eithaf cyfforddus, mae angen i ni gofio am bobl llai ffodus sy'n gweithio'n galed i wella eu sefyllfaoedd. Trwy ddeall yn well, gallwn ddatblygu cymdeithas sy'n cefnogi eraill mewn ffyrdd ymarferol. Mae'n bwysig fod plant yn ymwybodol o ffyrdd o fyw ac anghenion pobl y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Trwy ddealltwriaeth y dônt i ddangos parch at bobl sydd yn byw mewn modd gwahanol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____